

# Agenda – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd	<b>Robert Donovan</b>
Dyddiad: Dydd Iau, 7 Tachwedd 2019	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.25	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddESS@cynulliad.cymru">SeneddESS@cynulliad.cymru</a>

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.25–09.30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### 2 Papurau i'w nodi

#### 2.1 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch Comisiynydd Traffig Cymru

(Tudalennau 1 – 2)

##### Dogfennau atodol:

EIS(5)–28–19(P1) Comisiynydd Traffig Cymru

#### 2.2 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Fanc Datblygu Cymru – Craffu ar yr adroddiad blynnyddol gyda Banc Datblygu Cymru

(Tudalennau 3 – 4)

##### Dogfennau atodol:

EIS(5)–28–19(P2) Adroddiad blynnyddol craffu – Banc Datblygu Cymru

#### 2.3 Llythyr oddi wrth Trafnidiaeth Cymru parthed ymweliad Treganna

(Tudalennau 5 – 7)



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-28-19(P3) Llythyr Trafnidiaeth Cymru parthed ymweliad Treganna  
(Saesneg yn Unig)

**2.4 Trafnidiaeth Cymru – Cynllun rheoli risg – Cyflwyno fflyd newydd wedi'i rhaeadr**

(Tudalennau 8 – 21)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-28-19(P4) Cynllun rheoli risg

**2.5 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Lywodraeth Cymru ynghylch FyNgherdynTeithio**

(Tudalennau 22 – 23)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-28-19(P5)Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – FyNgherdynTeithio

**2.6 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Trafnidiaeth Cymru ynghylch golygiadau**

(Tudalennau 24 – 25)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-28-19(P6) Llythyr Cadeirydd at Trafnidiaeth Cymru ynghylch golygiadau

**3 Datgarboneiddio Trafnidiaeth – Trafnidiaeth gyhoeddus ar y ffyrdd (09.30-10.45)**

(Tudalennau 26 – 75)

Christine Boston, Cyfarwyddwr Cymru ac Ymgyrchoedd Ymchwil a Pholisi'r

DU, y Gymdeithas Cludiant Cymunedol

Morgan Stevens, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru

Mohammed AbdulHie, Cadeirydd, Cynghrair Hacni Caerdydd

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-28-19(P7) Papur Briffio

EIS(5)-28-19(P8) Tystiolaeth gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol

EIS(5)-28-19(P9) Tystiolaeth gan Gydffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru  
(Saesneg yn Unig)

### **Egwyl**

(10.45–11.00)

## **4 Datgarboneiddio trafnidiaeth – Cludo nwyddau**

(11.00–12.00)

(Tudalennau 76 – 83)

Yr Athro Robert Mason, Cadeirydd Logisteg, Pennaeth Adran Logisteg a  
Rheoli Gweithrediadau, Ysgol Fusnes Caerdydd

Yr Athro Andrew Potter, Cadeirydd Logisteg a Thrafnidiaeth, Dirprwy  
Bennaeth Logisteg a Rheoli Gweithrediadau (Dysgu ac Addysgu), Ysgol  
Fusnes Caerdydd

Sally Gilson, Pennaeth Sgiliau, y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau

### **Dogfennau atodol:**

EIS(5)-28-19(P10) Tystiolaeth gan Ysgol Fusnes Caerdydd (Saesneg yn Unig)

### **Ôl-drafodaeth breifat**

(12.00–12.30)

Ken Skates AC  
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

21 Hydref 2019

Annwyl Ken,

### Comisiynydd Trafnidiaeth

Ar 9 Hydref cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Traffig Cymru. Mae'r [trawsgrifiad ar gael yma](#). Yn ystod y sesiwn gwnaed sawl pwynt yr hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth amdanyst, neu glywed eich barn arnynt.

Roedd y Pwyllgor yn bryderus i glywed am 'densiynau' o ran y berthynas â'r sefydliad sy'n darparu cefnogaeth weinyddol i'r Comisiynwyr Traffig, sef yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA). Mae'n ymddangos bod y tensiynau hyn yn achosi problemau gweithredol, yn ogystal â rhai pryderon yng Nghymru 'diffyg atebolrwydd'. Rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Pwyllgor nad oedd yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau yn ymlynu wrth y ddogfen fframwaith gyfreithiol y bwriadwyd iddi lywodraethu'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU, Comisiynwyr a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau. Soniodd hefyd fod adolygiad o'r cytundeb hwn cyn bo hir y gallai 'fod cyfle i Lywodraeth Cymru roi mewnbwn iddo'. Awgrymodd y Comisiynydd y dylid cael proses sicrwydd flynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol, i fod yn sicr bod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau yn cyflawni ei hamcanion.

Byddem yn gwerthfawrogi cael eich barn ar effeithiolrwydd y fframwaith cyfreithiol yng ngoleuni sylwadau'r Comisiynydd, gan gynnwys unrhyw broblemau y gallai'r dull hwn o gydgysylltu eu codi ar gyfer Cymru, ac unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i geisio mynd i'r afael â'r rhain.

Soniodd y Comisiynydd am y seminarau y mae wedi'u cynnal ar gyfer gweithredwyr Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSV). Dyluniwyd y seminarau i roi gwybodaeth ymlaen llaw i weithredwyr PSV fel nad ydynt yn canfod eu bod yn torri'r gyfraith yn nes ymlaen, ac yn ôl y Comisiynydd maent yn effeithiol. Yn anffodus, yn sgîl maint tîm bychan y Comisiynydd nid yw'n gallu gweithio drwy'r rhestr lawn o weithredwyr PSV. A fydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiynydd nesaf i gynyddu faint sy'n bresennol yn y seminarau? A fydd



Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried gweithio gyda'r Comisiynydd nesaf i ddatblygu a darparu seminarau tebyg ar gyfer gweithredwyr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV)?

Gwnaeth y Comisiynydd Traffig yn glir ei fod yn teimlo nad yw cofrestru bysiau yn ei ffurf bresennol yn gweithio cystal ag y gallai. Teimlai'r Comisiynydd y byddai ei swyddfa ef yn fwy addas ar gyfer y dasg na'r system bresennol lle ymdrinnir â chofrestriadau Cymru mewn swyddfa yn Leeds. Mae Traveline Cymru hefyd wedi awgrymu, ar wahân, y gall ymgymryd â'r rôl hon. A oes modd i chi nodi eich syniadau hirdymor ynghylch y broses cofrestru bysiau, gan gynnwys sut y gellir defnyddio cymhwysedd datganoledig yn y dyfodol?

Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod y Panel ar Nitrogen Deuocsid gyda'r Comisiynydd. Roedd yn ddealladwy ei fod yn amharod i ateb gormod o gwestiynau ar y mater, gydag ymgylfreithiad ar y gweill, ac nid oedd ychwaith eisiau achub y blaen ar unrhyw gyhoeddiadau y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar felly pe gallech ddarparu rhagor o fanylion am y Panel, gan gynnwys ei gyfansoddiad, ei gylch gorchwyl, y dull gweithredu y gofynnwyd iddo ei ddefnyddio, a phryd y cyhoeddir casgliadau ei waith?

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed eich barn ar ddull Llywodraeth Cymru o drafod gyda Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw symudiadau tuag at ddatganoli cyfrifoldeb am y canlynol:

- Adleoli gwaith gweinyddu trwyddedu gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru, i Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yng Nghaernarfon.
- Gwella synergieddau rhwng Llywodraeth Cymru / yr Asiantaethau Cefnffyrdd a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA).

Yn gywir,



Russell George AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau



Giles Thorley  
Prif Weithredwr, Banc Datblygu Cymru

21 October 2019

Annwyl Giles

### Craffu ar yr adroddiad blynnyddol gyda Banc Datblygu Cymru

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am roi o'ch amser, ac am eich atebion yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol ar 3 Hydref. Roedd y Pwyllgor eisiau gofyn rhai cwestiynau, fodd bynnag, nad oedd gennym amser ar eu cyfer yn y sesiwn, ac mae rhai Aelodau wedi codi cwestiynau dilynol i'r meysydd roeddent yn holi yn eu cylch yn y sesiwn.

A oes modd i chi ddarparu atebion i'r cwestiynau atodol canlynol:

- Mae'r adroddiad blynnyddol yn trafod eich llyfr benthyciadau ac mae'n crybwyl darpariaethau am golledion. A allwch roi syniad inni o beth yw eich disgwyliadau o ran ad-daliadau ar gyfer eich llyfr benthyciadau? Yn benodol, beth yw eich amcangyfrifon ar gyfer ad-daliadau, a beth ydych yn ei wneud i sicrhau nad yw dyled ddrwg yn effeithio'n negyddol arnoch?
- Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed am y buddsoddiad gan Gronfa Bensiwn Clwyd, ac am nod y Banc i reciwtio 'buddsoddwyr effaith'. A allwch ymhelaethu ar y gwaith hwn? A oes gennych unrhyw nodau neu dargedau o ran cynyddu buddsoddiad y sector preifat yn y Banc a'ch cronfeydd?
- Yn y sesiwn dywedasoch eich bod yn casglu data ar y rhaniad rhwng y rhywiau o ran swyddi a grëwyd gan eich buddsoddiadau, a bandiau cyflog y swyddi hynny. A yw'r data hwn yn cael ei gasglu gan y sector diwydiant hefyd? A allech chi roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r swyddi a grëwyd yn ôl rhyw, a'r bwlch cyflog o ran y swyddi a grëwyd? Os nad yw'r manylion hyn gennych yn awr, pryd ydych chi'n rhagweld y gallwch eu darparu?
- Mae gan y pwyllgor ddiddordeb yn y data sectoraidd i weld pa mor dda y mae'r buddsoddiadau yn helpu pobl i gyflawni rolau lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'u rhyw. Os yn bosibl, a allech roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r swyddi a grëwyd fesul rhyw gweithwyr newydd, a'r sector y cawsant eu reciwtio iddynt? Os nad yw'n



bosibl, a fydddech yn ystyried cofnodi a chyhoeddi data wedi'u dadgyfuno ar swyddi a grëwyd fesul rhyw, a fesul sector yn y dyfodol?

- Yn gynharach y mis hwn, yn anffodus, cyhoeddwyd bod Triumph Furniture Company yn fethdalwr. Mewn ymateb i gwestiwn amserol yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos honno nododd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth fod Brexit wedi chwarae rhan yn eu cwyp. Dywedodd hefyd fod y Banc Datblygu yn barod i gael ei ddefnyddio i gefnogi cwmnïau pe bai dim cytundeb Brexit. Beth mae'r Banc Datblygu yn ei wneud ar hyn o bryd i gefnogi busnesau sefydledig sydd angen ail-ganolbwytio neu ail-arfogi, naill ai i gyrraedd marchnadoedd newydd neu i addasu i farchnad sy'n newid, yn enwedig yn wyneb ymadawiad y DU â'r UE sydd ar ddod?
- Fe nodwch yn yr adroddiad blynnyddol bod "Brexit yn parhau i beri ansicrwydd wrth i fusnesau benderfynu ble a phryd i fuddsoddi. Mae profiad diweddgar wedi gweld rhai bargeinion yn aros neu'n syrthio i ffwrdd yn gyfan gwbl ac rydym yn disgwyli'r patrwm hwn barhau'n 2020". A allech chi ymhelaethu ar hyn, ac ar y camau rydych chi'n eu cymryd i liniaru'r risg a gaiff ei greu gan yr ansicrwydd hwn?
- Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed eich bod mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch cynllunio i ragweld a lliniaru effeithiau uniongyrchol Brexit. Pa baratoadau tymor hwy ydych chi'n eu gwneud, a pha drafodaethau tymor hwy ydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru? Yn benodol pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael a beth yw eich cynllun ar gyfer yr amser pan na all Llywodraeth Cymru a'r Banc Datblygu gael gafael ar Gronfeydd Ewropeaidd mwyach?

Fe wnaethoch hefyd addo anfon manylion eich cronda hunan-adeiladu newydd at y Pwyllgor pan fyddwch yn ei lansio, ac mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth hon cyn gynted ag y bydd ar gael.

Yn gywir,



Russell George AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau





Russell George AM  
Chair Economy, Infrastructure and Skills Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff  
CF99 1NA

28 October 2019

Dear Mr George

During the Committees visit to the Canton depot on Wednesday 23<sup>rd</sup> September, you and other Members of the EIS Committee raised some questions that I promised to get back to you on. I hope my response goes someway in answering your questions.

**1) Question of how many trains will be fitted with WSP this autumn.**

During my appearance at Committee on the 9<sup>th</sup> January 2019, I quoted that I believed there were six units inherited from ATW that were not going to be fitted with WSP. However, I wish to inform Members of the committee that there were actually eight units. Please accept my apologies for any inaccuracy, this was not intentional.

As per our original plan, of the post-2019 TfW rolling stock fleet, only the eight Class 153 single-carriage units were scheduled to not be fitted with Wheel Slide Protection (WSP). This is because these units are not planned to be with TfW long-term and it is not considered cost-effective to fit them with the system.

Since January 2019, we have made a number of changes to our rolling stock plan, which means the planned percentage of trains in service from January 2020 without WSP has increased. We have gone beyond our original rolling stock commitments by introducing five additional Class 153 units, acquired from Great Western Railway. These will not be fitted with WSP. Similarly, the Class 37 locos hired from Colas Rail to haul carriages on the Rhymney Line are also not fitted with WSP. As a result of this, around two thirds of the revised, more diverse fleet, will now be fitted with WSP.

Last month we formally submitted an application to seek dispensation to run non PRM compliant units into 2020. As such, a formal request has been submitted and consultation is currently taking place with industry stakeholders to enable a decision to be made by the Secretary of State for Transport regarding this dispensation.

Subject to securing a PRM dispensation, we will then look to temporarily retain some of the trains we originally planned to withdraw prior to 2020 in order to provide more capacity for our customers. These trains will be kept in service for a period into 2020 due to delays to our Class 230 and 769 trains, which were originally scheduled to have been in service in time for December 2019.

We are also examining other options for bringing in further rolling stock from other operators

As more older trains are withdrawn over the course of 2020 and we introduce Class 230s and 769s, this percentage will decrease and by autumn 2020 nearly all of the trains in service with TfW will be fitted with WSP, with the exception of the Class 153s

## **2) Details on the Ebbw Vale feasibility study**

Transport for Wales is committed to running rail services between Ebbw Vale and Newport. However, installing this link requires infrastructure improvements to allow more trains to travel in both directions on the line.

TfW have been commissioned by Welsh Government to produce an Outline Business Case that looks at the feasibility of achieving up to four trains per hour from Ebbw Vale Town, running to Cardiff and Newport, and considers different running patterns.

The Outline Business Case was submitted in October, following a delay caused by the December 2019 timetable changes for UK franchises, which changes the provision and availability of train paths on the South Wales Mainline.

Your constituents should start to see a transformation soon with the introduction of the Class 170s from December this year. They will offer a significant comfort improvement to passengers and feature power sockets, electronic passenger information, air conditioning and their wider doors make them better suited to suburban operation than the trains currently used on peak hour services

### **3) Shorter journeys in West Wales and more detail.**

There will be new two and three-car DMUs on the Milford Haven to Manchester service by 2023, with a first-class service from Swansea to Manchester from 2024.


The Pembroke Dock and Fishguard services will be operated with Class 170s, which will offer a significant improvement compared to the trains that currently serve the routes.

From December, a timetable change will see an additional train every day to Fishguard. The Sunday service to Pembroke Dock will increase on Sundays from 5 to 6 trains per day from 2023

We plan to invest in Carmarthen station in 2021 and Llanelli Station in 2025.

We're going to recruit a new Community and Stakeholder Manager within the next few months and six new Community Ambassadors and Apprentices next year. This team will work with the community to identify further improvements that can be made to the service and to transform sites across the region into community facilities.

Yours sincerely,



James Price  
Prif Weithredwr / Chief Executive

## Cynllun Rheoli Risg

Cyflwyno Fflydoedd Newydd a  
Rhaeadrol  
TfWRS/RMP/001

## Cynnwys

1	Rheoli Risg .....	3
1.1	Cyffredinol.....	3
1.2	Risgiau'r Rhaglen o Gyflwyno Fflydoedd Newydd a Rhaeadrol.....	3
2	Prosesau TfWRS.....	4
3	Y Broses Rheoli Risg.....	4
3.1	Disgrifiad o'r Broses.....	5
3.2	CAM 1 – Nodi Risgiau .....	7
3.2.1	Nodi.....	8
3.2.2	Cysoni Risgiau.....	8
3.2.3	Diffinio Perchnogaeth.....	8
3.3	CAM 2 – Asesu .....	8
3.3.1	Asesiad cyn Lliniaru (Asesiad Ansoddol).....	9
3.3.1.1	Maint yr Effaith cyn Lliniaru.....	9
3.3.1.2	Matrics Risg cyn Lliniaru.....	10
3.3.2	Amseriadau Effaith Risg.....	10
3.4	CAM 3 – Cynllunio'r Ymateb.....	11
3.4.1	Lliniaru Risgiau.....	11
3.4.2	Asesiad Lliniaru.....	11
3.5	CAM 4 – Gweithredu'r Camau Ymateb.....	12
3.5.1	Blaenoriaethu Camau Ymateb .....	12
3.6	CAM 5 – Tracio ac Adrodd .....	12
3.7	CAM 6 – Cau .....	13
4	Rolau a Chyfrifoldebau .....	13
4.1	Rheolwr y Prosiect.....	13
4.1.1	Cam Cychwynnol.....	13
4.1.2	Cam Gweithredu'r Prosiect .....	13
4.2	Aelodau Craidd Tîm y Prosiect.....	14
4.2.1	Perchnogion Risgiau .....	14
4.2.2	Perchnogion Camau Lliniaru .....	14
4.2.3	Cydlynydd Risgiau Swyddogaethol .....	14
5	Adolygu Dogfennau .....	14

## 1 Rheoli Risg

Mae KeolisAmey Wales Cymru Limited, sy'n gweithredu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (TfWRS), yn caffa fflydoedd newydd a rhaeadrol i gymryd lle'r fflydoedd presennol sy'n gweithredu ar fasnachfraint Cymru a'r Gororau ar hyn o bryd. Mae disgwyd y bydd y fflydoedd a gyflwynir yn gweithredu ar amrywiaeth o wahanol fathau o wasanaethau ar seilwaith llwybrau Cymru a'r Gororau.

Bwriad TfWRS yw trawsnewid profiadau teithwyr a gwella ansawdd gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion teithwyr, sy'n newid o hyd.

Dyma'r fflydoedd newydd a rhaeadrol:

- Dosbarth 37 / MK2
- Dosbarth 170
- Dosbarth 230
- Dosbarth 769
- Dosbarth 67 / MK4
- CAF Civity DMU
- Stadler CityLink Tram-Train
- Stadler Flirt DEMU
- Stadler Flirt Tri-mode

### 1.1 Cyffredinol

Dull gweithredu TfWRS yw rheoli'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno cerbydau newydd a rhaeadrol er mwyn gallu bodloni ei ofynion contract, a chyflawni ei amcanion busnes yn llawn. Felly, nod y cwmni yw nodi a lliniaru, ar y cyfle cyntaf posibl, yr holl risgiau a allai effeithio ar lwyddiant y prosiectau cyflwyno cerbydau newydd a rhaeadrol. Bydd dealltwriaeth lawn o ofynion, amserlenni a chyfyngiadau masnachol a thechnegol yr holl randdeiliaid yn rhan hanfodol o'r dull hwn.

Mae proses rheoli risg gadarn yn sail i holl brosiectau TfWRS. Mae'r dull o reoli risg yn raddol yn cael ei ddefnyddio ym mhob cam y prosiectau cyflwyno cerbydau a'i nod eithaf yw gwneud yn siŵr bod yr holl Unedau newydd a rhaeadrol yn cael eu cyflwyno i'r safonau gofynnol, a'u bod yn bodloni ac yn parhau i fodloni gofynion contract TfWRS yn hynny o beth.

### 1.2 Risgiau'r Rhaglen o Gyflwyno Fflydoedd Newydd a Rhaeadrol

Dyma'r prif agweddau ar y dull o nodi a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno fflydoedd newydd a rhaeadrol:

- Cynnal dibynadwyedd pob dosbarth o drenau newydd a rhaeadrol i'w cyflwyno i'r fasnachfraint, a lliniaru risgiau a allai effeithio ar y dibynadwyedd hwnnw
- Gwneud yn siŵr bod nifer yr Unedau sydd eu hangen i fodloni gofynion amserlenni gwasanaethau i deithwyr yn cael eu darparu a'u bod ar gael ar amser

- i ddiwallu anghenion TfWRS a'i gleient, a lliniaru risgiau a allai effeithio ar yr argaeedd hwn
- Bygythiadau i argaeedd cyfleusterau a gweithgareddau cynnal a chadw
  - Newidiadau i brosesau e.e. o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth
  - Amhariadau a allai effeithio ar allu TfWRS i gyflawni ei ymrwymiadau dan gontact
  - Unrhyw beth a allai effeithio ar safonau Diogelwch, Amgylcheddol neu Ansawdd

Yn ogystal â gwaith TfWRS yn nodi risgiau'n rhagweithiol, bydd y cwmni'n defnyddio prosesau safonol wedi'u gwreiddio i sicrhau parhad perfformiad, e.e. cyflenwyr, cymhwysedd staff, gweithdrefnau arferion gorau ac ati

## 2 Prosesau TfWRS

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu prosesau cyffredinol TfWRS sy'n cael eu mabwysiadu i ddarparu dull gweithredu integredig ar gyfer cyflawni'r rhaglen a'r gweithrediadau. Mae'r strategaeth a'r prosesau sy'n cael eu defnyddio wedi'u dylunio i ddangos cynnydd a phroblemau go iawn, gan ei gwneud hi'n bosibl rheoli pob agwedd ar gyflawni yn rhagweithiol. Mae'r Cynllun Rheoli Risg yn hanfodol ac yn ategol i brosesau cyffredinol ehangach TfWRS.

Defnyddir System Rheoli Ansawdd TfWRS i reoli'r busnes cyfan. Mae'r system hon yn cynnwys: Llawlyfrau'r Cwmni, Strategaeth a Llywodraethu, y System Rheoli Diogelwch a'r Cynllun Rheoli Risg. Mae'r meysydd hyn yn cael eu rhannu'n hierarchaeth o sawl lefel i ddarparu fframwaith o nodweddion cyffredin fesul maes swyddogaethol yn y busnes.

Mae holl brosesau TfWRS yn cael eu hadolygu a'u rheoli'n ganolog i'r sefydliad cyfan ac, yn achos y Cynllun Rheoli Risg, gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau ganolog.

Mae archwiliadau o ddefnydd y prosesau hyn yn cael eu cynnal yn erbyn achrediadau TfWRS (safonau ISO) a drwy archwiliadau llywodraethu mewnol.

## 3 Y Broses Rheoli Risg

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi, asesu a monitro risgiau prosiect cyn iddynt ddatblygu'n broblemau sy'n effeithio ar brosiectau, ac mae Rheoli Cyfleoedd yn datblygu syniadau sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar brosiectau. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â rheoli risg ond, i'r un graddau, mae cyfleoedd yn cael eu rheoli ochr yn ochr â hynny wrth weithredu'r prosiect, ac yn defnyddio prosesau ac adnoddau cyffredin. Y Cynllun Rheoli Risg yw'r broses safonol i reoli Risgiau a Chyfleoedd a bydd yn cael ei ddefnyddio ym mhob prosiect cerbydau newydd a rhaeadrol.

Mae'r gwaith o Reoli Risg ym mhob prosiect yn cael ei ategu gan Gofrestr Risgiau. Caiff pob risg a nodir ei hychwanegu at y Gofrestr pan nodir nhw am y tro cyntaf. Mae'r holl wybodaeth am ddatblygiad hanesyddol y risgiau, gan gynnwys risgiau arfaethedig a gweithredol, a risgiau wedi'u gwrthod a'u cau, yn cael ei chadw ar y Gofrestr.

Os oes mwy nag un canlyniad i risg, mae'r wybodaeth yn cael ei hychwanegu at y Gofrestr Risgiau er mwyn i bob canlyniad fod yn risg ar wahân, er bod amod/achos cyffredin. Mae hyn yn sicrhau bod pob effaith yn cael ei hystyried, gan gynnwys symlrwydd y Gofrestr.

Ar gyfer pob prosiect, mae TfWRS yn penodi Rheolwr Prosiect pwrrpasol sydd â chyfrifoldeb dros nodi a rheoli pob risg. Yn y rôl hon, bydd y Rheolwr Prosiect yn:

- Helpu tîm ehangach y prosiect i reoli materion a allai gael effaith yn rhagweithiol
- Gwneud yn siŵr bod camau'n cael eu cymryd a hynny i'r amserlen
- Rheoli'r Gofrestr Risgiau
- Awdurdodi mynediad i'r Gofrestr Risgiau i aelodau o'r tîm
- Gwneud yn siŵr bod data risgiau'n cael eu hychwanegu at y Gofrestr Risgiau
- Sicrhau ymlyniad wrth y prosesau Rheoli Risg

Caiff risgiau unigol eu neilltuo i aelodau o dîm y Prosiect a fydd yn gyfrifol am reoli eu risgiau eu hunain, gan ychwanegu at y Gofrestr Risgiau a datblygu camau ymateb mewn cysylltiad â'u swyddogaeth. Mae'r tîm Rheoli Prosiect yn gwneud gwaith rheoli risg ar sail yr athroniaeth o nodi risgiau'n gynnar a dilyniant parhaus drwy gydol oes y prosiect. Byddant yn rhagweithiol drwy ragweld digwyddiadau yn y dyfodol a allai effeithio ar y prosiect ac yn cymryd y camau angenrheidiol i leihau tebygolrwydd risg, a/neu i leihau effaith y risg pe bai'n digwydd.

Dyma brif ffactorau llwyddiant y broses rheoli risg:


- Mae holl risgiau'r Prosiect yn cael eu nodi a'u hasesu'n helaeth wrth lansio'r Prosiect ac ym mhob cam o'r Prosiect.
- Mae dull gweithredu integredig 'un tîm' yn cael ei fabwysiadu lle mae Rheolwr y Prosiect yn goruchwyllo'r holl risgiau ym mhob swyddogaeth, ac mae'r arfer o gyfnewid gwybodaeth rhwng y swyddogaethau hyn, partneriaid a rhanddeiliaid yn cael ei hyrwyddo
- Risgiau'n cael eu rheoli'n barhaus drwy gydol y prosiect.

Nod y strategaethau yw amlinellu gofynion lefel uchel y system. O'r strategaethau, bydd cynlluniau penodol i'r prosiect yn cael eu datblygu. Bydd y rhain yn dogfennu'r llif gwaith yn fanwl a sut bydd y gofyniad yn cael ei weithredu i wneud yn siŵr bod y system yn cael ei defnyddio'n ddiogel.

### 3.1 Disgrifiad o'r Broses

Mae Rheoli Risg yn cynnwys chwe cham pendant sy'n datblygu dros oes y prosiect. Mae'r broses rheoli risg yn dechrau yn y cam cynnig ac yn gorffen pan fydd y prosiect yn dod i ben. Nid yw camau'r broses yn benodol i gamau'r prosiect. Maen nhw'n cael eu hailadrodd dros oes y prosiect – gweler Ffigurau 1 a 2.

....mae'n ailadroddol: yn dechrau yn ystod y Cam Cynnig ac yn gorffen pan fydd y Prosiect yn Dod i Ben



Ffigur 1 - Cylch Rheoli Risg TfWRS

Cam 1	Nodi	Nodi, categoriiddio a chysoni risgiau
Cam 2	Asesu	Gwerthuso a bwrrw amcan o effeithiau a rhyngweithiadau posibl (caiff hyn ei fesur yn nhermau amser neu gost a thebygorwydd)
Cam 3	Cynllunio'r Ymateb	Diffinio'r camau lliniaru
Cam 4	Rhoi'r Ymateb ar Waith	Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a'i integreiddio yn y prosiect
Cam 5	Tracio ac Adrodd	Gwneud y risgiau'n weladwy
Cam 6	Cau	Trosglwyddo risgiau i hyd a lled y prosiect os byddant yn digwydd ac yn dod yn broblemau. Cau risgiau nad ydynt wedi digwydd erbyn diwedd y cam effaith.

Ffigur 2 – Camau Proses Risg TfWRS

### 3.2 CAM 1 – Nodi Risgiau

Cam cyntaf y broses rheoli risgiau yw nodi digwyddiadau unigol a allai ddigwydd yn ystod y prosiect. Mae'r cam nodi yn cynnwys:

- Nodi'r risgiau
- Cysoni'r risgiau sy'n cael eu nodi
- Neilltuo perchnogaeth o risgiau unigol

Am resymau effeithlonrwydd, mae tîm llawn y Prosiect yn rhan o gyfres o adolygiadau a gweithdai i nodi a chysoni risgiau prosiect, a neilltuo perchnogaeth ohonynt, sef:

- Adolygiad o'r contract ac adolygiad masnachol i wneud yn siŵr bod yr holl faterion masnachol ac ariannol dros oes y prosiect yn cael eu rheoli
- Gweithdai nodi risgiau sy'n cynnwys pob swyddogaeth
- Gweithdai gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori "yr arferion gorau"
- Gweithdai rhagdybiaethau, lle mae'r holl ragdybiaethau a wnaed gan gyflenwyr ac isgontractwyr yn cael eu casglu ynghyd, eu dilysu, ac unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu lliniaru
- Ar gyfer prosiectau trenau newydd, gweithdai asesu eitemau hollbwysig: nodi risgiau a dogfennu'r Modd Methiant a Dadansoddi Effeithiau (FMEA) neu'r gwaith arall sydd i'w wneud yn ystod y cyfnod gweithredu
- Adolygiadau Giât a Phlymio'n Ddwfn (Deep Dives and Gate Reviews), sy'n cael eu harwain gan yr uwch reolwr ac yn ymdrin â phob agwedd ar y prosiect

Mae pob risg yn cael ei ddisgrifio gan ddatganiad (gweler Ffigur 3), sy'n osgoi amwysedd ac yn cyflwyno cysondeb i'r broses. Yn Saesneg, mae'r datganiad wedi'i lunio yn ôl y fformat "3C" – Condition, Cause, Consequence.

<b>Amod</b> <i>Mae risg bod...</i>	Disgrifiwch yr amod, y digwyddiad neu'r gyfres o ddigwyddiadau a allai ddigwydd
<b>Achos</b> <i>Mae'r risg wedi'i hachosi gan...</i>	...Nodwch faes cyffredinol yr achos a disgrifio ffynhonnell benodol y digwyddiad
<b>Canlyniad</b> <i>Effaith uniongyrchol y risg fyddai...</i>	...Disgrifiwch yr effaith uniongyrchol o ran yr effaith ar feysydd gwaith lle mae'r digwyddiad yn digwydd (cost, amserlen, perfformiad ac ansawdd, methu carreg milltir o ran taliadau, iawndal penodedig, cynyddu mewn stocrestrau)

Ffigur 3 - Fformat y disgrifiadau o risgiau: Amod, Achos a Chanlyniad

### 3.2.1 Nodi

Caiff risgiau eu nodi drwy gydol oes y prosiect ac nid yw'n ymarfer 'unstro'. Wrth i'r prosiect fwrw ymlaen mae tîm y Prosiect yn ennill rhagor o wybodaeth, sy'n gallu arwain at nodi rhagor o risgiau. Mae risgiau'n newid o ran eu hyd a'u lled wrth i'r prosiect ddatblygu hefyd. Caiff newidiadau eu cyfathrebu mewn cyfarfodydd risg rheolaidd a'r Gofrestr Risgiau ei diweddar u'n rheolaidd i adlewyrchu'r ddealltwriaeth ddiweddaraf.

Cymerir gofal ym mhob cam i wneud yn siŵr nad problemau na phryderon yw'r risgiau a nodir.

### 3.2.2 Cysoni Risgiau

Mae hyn yn datblygu drwy'r broses rheoli risg ac mae 3 nod iddo:

- Osgoi dyblygu
- Asesu a graddio pob effaith
- Diffinio pob cam ymateb

Yn y cam nodi, mae Tîm y Prosiect yn gwneud yn siŵr nad oes risgiau wedi'u dyblygu a bod y rhwngwynebau a'r ymyriadau rhwng risgiau ac ymssg swyddogaethau wedi'u nodi. Mae gwaith cysoni'n cael ei wneud i ganiatâu i risgiau gael eu clystyr yn ôl achosion neu ganlyniadau, i sefydlu cysylltiadau rhwng risgiau, a'r camau ymateb

### 3.2.3 Diffinio Perchnogaeth

Mae holl aelodau Tîm y Prosiect yn gyfrifol am nodi risgiau, hyd yn oed y tu allan i'w maes. Felly, efallai nad y person neu'r swyddogaeth sy'n nodi risg fydd yr adnodd gorau i reoli'r risg honno nes ei datrys. Er bod y risgiau'n cael eu hadolygu gan Reolwr a Thîm y Prosiect, maen nhw'n defnyddio profiad a barn i neilltuo'r gwaith o reoli risgiau penodol, a hynny ar sail dwy ystyriaeth:

- Y swyddogaeth y bydd y risgiau'n effeithio arni fwyaf
- Y swyddogaeth sydd fwyaf addas i reoli'r camau ymateb

Wedyn, mae perchen nog y risg yn gyfrifol am reoli ei risgiau ac am adrodd ar y cynnydd i Reolwr y Prosiect mewn cyfarfodydd adolygu

## 3.3 CAM 2 – Asesu

Mae asesu risgiau'n cynnwys gwerthuso'r ystod o ganlyniadau posibl y prosiect pe bai'r risg yn digwydd. Caiff hyn ei wneud fel a ganlyn:

- Asesiad Ansoddol – Asesiad cyn Lliniaru cyn gweithredu unrhyw gamau ymateb/lliniaru
- Bwrw amcan o effaith ac amseriad risgiau
- Asesiad Meintiol – Asesiad ar ôl Lliniaru yn seiliedig ar y camau ymateb yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac ar yr adeg gywir (gweler Adran 3.4.2)

Mae Tîm y Prosiect yn adolygu risgiau'r Prosiect yn barhaus i wneud yn siŵr bod yr effaith lawn wedi cael ei nodi a'i hamcanu, gan ddiweddar u'r Gofrestr Risgiau fel y bo'r angen.

### 3.3.1 Asesiad cyn Lliniaru (Asesiad Ansoddol)

Mae'r asesiad cyn lliniaru'n cael ei gynnal gan berchen nog y risg. Mae'n darparu gradd ar gyfer pob risg. Mae hyn yn golygu bod modd graddio'r risg yn gychwynnol:

- Gan ddangos proffil/gradd y risg i Dîm y Prosiect a'r rheolwyr
- Gan ei gwneud hi'n bosibl nodi'r risgiau â'r potensial uchaf er mwyn cyfeirio ymdrech tuag atynt yn syth

Ar ôl ei gwblhau, bydd yr asesiad ansoddol yn diffinio'r risgiau fel rhai UCHEL, CANOLIG neu ISEL, yn seiliedig ar faint cyfunol yr Effaith a'r Tebygolrwydd.

Mae'r lefel hon o fanylder yn cael ei nodi ar y Gofrestr Risgiau hefyd, sy'n dangos ansawdd y wybodaeth sydd ar gael wrth fwrw amcan o'r Effaith a'r Tebygolrwydd, sef:

- Uchel (H) – mae'r wybodaeth am Effaith a Thebygolrwydd y risg yn ddigonol i bob pwrpas ymarferol
- Canolig (M) – mae digon o wybodaeth ar gael i fwrw amcan o'r Effaith a'r Tebygolrwydd
- Isel (L) – nid oes digon o wybodaeth ar gael i fwrw amcan defnyddiol o'r Effaith na'r Tebygolrwydd

Mae risg sy'n dod o dan y categori Uchel yn caniatáu i gamau gael eu llunio a'u gweithredu cyn gynted â phosibl. Ond os yw manylder y wybodaeth yn 'Isel', bydd ymchwiliad pellach yn cael ei wneud i'r risg er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth. Pan fydd manylder y wybodaeth gynyddu wrth i'r prosiect ddatblygu a'r ddealltwriaeth o'r risgiau gynyddu, mae'r manylder yn cael ei ddiweddar ynghyd â newidiadau i'r Effaith a'r Tebygolrwydd, os yw'n briodol.

#### 3.3.1.1 Maint yr Effaith cyn Lliniaru

Mae maint risg yn gysylltiedig â'r effaith bosibl ar y prosiect yn gyffredinol o ran costau neu oedi posibl, ac mae'n cael ei ystyried i ddechrau heb y budd o weithredu unrhyw gamau lliniaru. Caiff pum band eu defnyddio i ddisgrifio effaith bosibl y risg, fel y dangosir yn Ffigur 4. Yn yr un modd, mae'r Tebygolrwydd o'r risg yn digwydd hefyd wedi'i ddiffinio mewn bandiau a drwy gyfuno'r Effaith a'r Tebygolrwydd, mae pob risg yn cael asesiad cychwynnol ystyriol a chyraeddadwy gan ddefnyddio dull matrics.

Sgorio'r effaith	1	2	3	4	5
	Isel	Mân	Canolig	Sylweddol	Uchel
Cost (% o werth y prosiect)  Ond dim mwy na (gwerth mewn € neu US\$)	<0.25%  1m	0.35 – 0.5%  2.5 m	0.5-1%  5 m	1-2.5%  7.5 m	>2.5%  10m
Amserlen	Dim oedi	Oedi, ond gellir lliniaru hyn wrth gyflawni'r camau wedi'u gohirio	Bydd camau gweithredu wedi'u gohirio yn achosi oedi o ran cychwyn y camau gweithredu canlynol	Bydd yn achosi oedi cyn cwblhau'r camau gweithredu canlynol	Bydd yn achosi oedi ar gyfer gweithgareddau dilynol ac yn effeithio ar garreg filltir sylweddol
	Annhebygol	Tebygolrwydd isel	Posib	Tebygolrwydd uchel	Bron yn sicr
Cyn lliniaru / Cyn cynyddu'r tebygolrwydd o ddigwydd	1-20%	20-40%	40-60%	60-80%	80-99%

Ffigur 4 sy'n dangos y dosbarthiad a ddefnyddir i fwrw amcan o'r Effaith a'r Tebygolrwydd


### 3.3.1.2 Matrics Risg cyn Lliniaru

Mae matrics yn cael ei ddefnyddio i ddarlunio risg ar sail y mewnbynnau Effaith a Thebygolrwydd, fel y dangosir yn Ffigur 4. Mae'r dosbarthiad risg canlyniadol yn cael ei ddangos mewn safle penodol ar y matrics. Cynrychiolir y dosbarthiadau gan wahanol barthau: mae'r part coch yn dangos risgiau Uchel, melyn yn dangos risgiau Canolig a gwyrdd yn dangos risgiau ISEL. Mae safle'r risg ar y matrics wedi'i ddynodi gan y llythyren manylder H, M neu L a gafodd ei fewnbynnu (gweler Ffigur 5, sy'n giplun o gronfa ddata Cofrestr Risgiau).

Mae safle risg yn y part coch yn deillio o Debygolrwydd uchel a Risg â photensial uchel, ac mae'r tîm yn rhoi blaenoriaeth iddi gan ddatblygu camau lliniaru cadarn yn brydlon.

### 3.3.2 Amseriadau Effaith Risg

Rhoddir ystyriaeth i'r pwynt lle bydd pob risg yn digwydd, eto i helpu i flaenoriaethu ac i ganiatáu camau i gael eu grwpio. Mae'r Gofrestr Risgiau'n darparu ar gyfer cofnodi Dyddiad yr Effaith a Dyddiad y Statws fel mewnbynnau sy'n cynrychioli'r prosiect cyfan. Mae Dyddiad Cwblhau yn cael ei gynnwys i annog diweddarriad rheolaidd ac asesiad o risg i sicrhau rheolaeth effeithiol

Cam lliniaru	Gweithredwr	Dyddiad cau'r cam gweithredu	Statws	Risk Matrix
X i ddeall hyd a lled y byrddau atal angenrheidiol		30.10.2017	Wedi cau	
X ac x i greu plotiau darlunio er mwyn deall y paramedrau o ran gosod y byrddau atal		30.10.2017	Wedi cau	
Cyflawni'r gwaith o osod y byrddau atal		15.07.2018	Ar agor	
X ac x i gadarnhau'r cyfrifoldeb dros brynu'r byrddau atal		30.10.2017	Wedi cau	

*Figur 5 – Enghraift o adnodd cronfa ddata ROP Asesiad Risg Bombardier*

## 3.4 CAM 3 – Cynllunio'r Ymateb

### 3.4.1 Lliniaru Risgiau

Cynllunio'r Ymateb yw'r broses o lliniaru'r risgiau a nodir. Mae pob perchenennog risg yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu camau ymateb, gyda chymorth gan Dîm y Prosiect.

- Gall cynllun ymateb ar gyfer risg benodol gynnwys mwy nag un weithred sy'n cynnwys unrhyw aelod o'r tîm.
- Efallai y gofynnir i holl aelodau Tîm y Prosiect, gan gynnwys partneriaid a chyflenwyr, nodi a datblygu mesurau ymateb ar gyfer risgiau a nodir hyd yn oed os nad nhw yw'r perchenennog.
- Bydd yr aelod o Dîm y Prosiect sy'n gyfrifol am risg yn nodi Gweithredwr Ymateb priodol.
- Ar ôl diffinio'r camau ymateb, bydd aelodau Tîm y Prosiect yn adolygu'r camau a bydd Rheolwr y Prosiect yn eu cadarnhau.
- Bydd perchenennog y risg yn darparu'r holl wybodaeth y mae angen ei nodi ar y Gofrestr Risgiau, gan gynnwys Dyddiadau Cwblhau Camau, Disgrifiad o Gamau a Chost Camau Lliniaru.
- Bydd perchenennog y risg ac aelodau Tîm y Prosiect yn cysylltu â'r holl berchnogion risg ac yn sicrhau ymrwymiad a chytundeb ynghylch y dyddiadau cwblhau.

Bydd cost gweithredu'r camau lliniaru'n cael ei amcangyfrif i werthuso cost cam yn erbyn y buddiant oherwydd, mewn rhai achosion, efallai y bydd costau'r cam ymateb yn fwy na chost yr Effaith.

### 3.4.2 Asesiad Lliniaru

Mae'r asesiad hwn yn asesiad meintiol neu rifol manylach o'r risgiau unigol mewn cysylltiad â'r Effaith o ran cost a/neu amserlen. Cynhelir yr asesiad cyn gynted â phosibl er mwyn cynyddu effaith unrhyw gam lliniaru. Mae'r camau lliniaru sy'n cael eu nodi i fynd i'r afael â risgiau sy'n benodol i brosiect arbennig yn cael eu nodi fel mesurau sy'n ychwanegol at y rheini sydd wedi'u cynnwys ym mhrosesau safonol TfWRS fel arfer. Mae'r asesiad yn cynnwys:

- Diffiniad o'r cam(au) lliniaru ar gyfer pob risg
- Y cam a'r person sy'n gyfrifol am weithredu'r cam(au) lliniaru
- Cyfrifiad o gost y gwaith lliniaru
- Ystyriaeth o lwyddiant y gwaith lliniaru

Amcan o'r risg ar ôl asesu'r gwaith lliniaru fel a ganlyn:

- Effaith Fwyaf o Ran Cost ac Amserlen – nid yw hyn yr un fath o reidrwydd â'r Effaith cyn Lliniaru, sy'n tybio na fydd y camau lliniaru'n llwyddiannus
- Effaith Leiaf o ran Cost ac Amserlen – nid yw hyn o reidrwydd yr un fath â'r gost neu'r oedi os nad yw'r risg yn digwydd – yr Effaith leiaf yw'r amcangyfrif o'r Effaith leiaf ar gost ac oedi os yw'r risg yn digwydd, ond gan dybio y bydd y rhan fwyaf o'r camau lliniaru'n llwyddiannus
- Effaith Fwyaf Tebygol o ran Cost ac Amserlen – caiff hyn ei gyfrifo ar sail y dybiaeth y bydd y camau lliniaru'n cael effaith deg, sydd fwyaf tebygol o ddigwydd

Mae Effaith debygol y risg ar gost ar gyfer cyllidebu'n cael ei phennu drwy luosi'r Gost Fwyaf Tebygol â'r Tebygolwydd ar ôl Lliniaru. Ar gyfer pob mewnbwn, mae rhesymeg/manylion y costau a'r tebygolwydd yn cael eu nodi ar y Gofrestr Risgiau. Mae'r asesiadau a'r mewnbynnau hyn yn cael eu gwneud gan berchen nog y risg a'u hadolygu gan Reolwr y Prosiect, y Rheolydd Ariannol a Phennaeth Prosiectau Trenau Newydd.

### 3.5 CAM 4 – Gweithredu'r Camau Ymateb

Perchenog y risg sy'n gyfrifol am weithredu'r camau ymateb, am fonitro'r dyddiad cwblhau ac am adrodd ar statws y camau ymateb yn y cyfarfodydd adolygu risgiau rheolaidd.

Mae'r gwaith o weithredu camau ymateb yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses rheoli newid, lle mae cynnig yn cael ei adolygu'n eang, ei gyllidebu a'i gymeradwyo cyn ei weithredu. Perchenog y cam lliniaru sy'n gyfrifol am gyflawni'r tasgau neu'r gweithgareddau i gwblhau'r cam ymateb. Pan fydd cam ymateb yn cael ei gwblhau a'r canlyniadau'n cael eu derbyn gan Reolwr y Prosiect, mae perchenog y risg yn diweddar u'r wybodaeth yn y Gofrestr Risgiau ac mae'r asesiad yn cael ei ddiwygio, fel y bo'n briodol

#### 3.5.1 Blaenoriaethu Camau Ymateb

Mae risgiau a allai effeithio ar y prosiect ar unrhyw adeg yn cael eu cadw dan adolygiad yn barhaus gan Reolwr y Prosiect; weithiau sawl mis cyn y cam lle gallant ddigwydd. Ar unrhyw adeg yn y prosiect, mae sylw'n cael ei ganolbwytio ar y risgiau a'r camau sy'n gysylltiedig â'r cam presennol er mwyn gwneud yn siŵr bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau'n brydlon. Lle y bo'n briodol, mae rhai camau'n cael eu hymgorffori yn Rhaglen y Prosiect i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu monitro a'u hymgorffori yng ngweithgareddau'r prosiect. Mae Rheolwr y Prosiect yn creu adroddiadau o'r Gofrestr Risgiau yn dangos y camau ymateb yng ngham cyfredol y prosiect, a'u dosbarthu a'u hadolygu gyda'r tîm.

### 3.6 CAM 5 – Tracio ac Adrodd

Mae'r gwaith o Dracio Risgiau ac Adrodd arnynt yn TfWRS yn gwneud y risgiau'n weledol bob amser i Dîm y Prosiect, gan ei fod yn hollbwysig i statws y prosiect. Mae perchnogion risg yn adrodd ar statws y camau ymateb i Reolwr y Prosiect drwy gyfarfodydd risg rheolaidd sy'n cael eu cynnal ym mhob cam o'r Prosiect.

Mae gwaith tracio risgiau rheolaidd yn cael ei wneud drwy:

- Adolygiadau Swyddogaethol
- Adolygiadau Tîm y Prosiect
- Adolygiadau Mewnol ac Allanol (e.e. gyda chyflenwyr) o'r Prosiect bob mis

Mae Rheolwr y Prosiect yn goruchwyllo'r risgiau sy'n cael eu hychwanegu at y Gofrestr Risgiau ac yn adolygu/rhoi cyngor ar y cynnwys i wneud yn siŵr bod y disgrifiadau, yr esboniadau, y costau a'r camau lliniaru'n gywir ac yn ddealladwy i bawb yn Nhîm y Prosiect.

Mae'r gwaith o adrodd ar broblemau rheoli risg yn cael ei wneud drwy adroddiadau cynnydd misol, sy'n cynnwys hyd at 5 o'r prif risgiau a allai effeithio ar TfWRS.

### 3.7 CAM 6 – Cau

Mae perchnogion risg yn gyfrifol am argymhell i Reolwr y Prosiect bod risg yn cael ei chau. Caiff risg ei chau dim ond pan nad yw'r eitem yn cael ei hystyried yn risg i'r prosiect. Hyd yn oed pan fydd risg wedi'i chau, bydd Rheolwr y Prosiect yn cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol yn y Gofrestr Risgiau.

Hyd yn oed pan fydd cam ymateb yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, gall risg dal gael Effaith weddilliol sy'n gofyn am ragor o gamau lliniaru/rheoli. Gellir cau risgiau:

- Pan fo'r risg wedi'i dyblygu rhywle arall
- Pan fo'r risg wedi cael ei lliniaru ac nid yw'n fygythiad mwyach
- Os nad yw'r risg wedi digwydd
- Os yw'r risg wedi digwydd (ac wedi achosi problem)

## 4 Rolau a Chyfrifoldebau

### 4.1 Rheolwr y Prosiect

Mae Rheolwr y Prosiect yn gyfrifol am y gwaith beunyddiol o reoli risgiau, sicrhau ansawdd, cyflawnder a chywirdeb yr holl wybodaeth am risgiau, asesiadau, costau a chamau lliniaru yn y Gofrestr Risgiau.

Mae'r rôl Rheolwr y Prosiect yn cynnwys y dyletswyddau canlynol:

#### 4.1.1 Cam Cychwynnol

- Gwneud yn siŵr bod gweithdai rheoli risg yn cael eu cynnal yn ôl yr angen
- Rheoli'r gwaith o drosglwyddo risgiau a'u perchnogaeth o/i dîm Gweithredu'r Prosiect
- Gwneud yn siŵr bod risgiau'n cael eu cysoni yn ystod y broses Lansio'r Prosiect
- Rheoli aliniad y tîm o ran deall risgiau'r prosiect

#### 4.1.2 Cam Gweithredu'r Prosiect

- Arwain gweithgareddau rheoli risg cyfnodol
- Gwneud yn siŵr bod gweithdai rheoli risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd (yn cael eu cynllunio'n fisol o leiaf)

- Rheoli risgiau'r Prosiect yn y Gofrestr Risgiau
- Rheoli, gyda chymorth aelodau Tîm y Prosiect, camau risgiau sy'n cael eu nodi a'r gwaith o'u cau
- Darparu adroddiadau misol ar statws risg Prosiectau a'u cynnydd

## 4.2 Aelodau Craidd Tîm y Prosiect

- Cydlynú'r gwaith o nodi ac asesu risgiau, a rhoi camau ymateb ar waith, a hynny yn eu maes swyddogaethol eu hunain ac mewn unrhyw ryngwynebiadau â swyddogaethau eraill
- Rheoli a herio asesiadau risgiau
- Nodi atebion i leihau risgiau
- Rhoi camau ymateb ar waith
- Adrodd ar ddatblygiad a statws pob risg swyddogaethol

### 4.2.1 Perchnogion Risgiau

Ar y cyfan, perchenog y risg fydd yr aelod o Dîm y Prosiect sydd yn y safle gorau i reoli'r risg a llunio camau lliniaru i leihau Tebygolrwydd neu Effaith y risg, a hynny drwy wneud y canlynol:

- Diffinio a gweithredu camau ymateb
- Mynd ar drywydd camau ymateb
- Adrodd ar statws risgiau i Reolwr y Prosiect
- Darparu gwybodaeth am gau'r risg i Reolwr y Prosiect
- Rheoli a diweddar gwybodaeth am y risg yn y Gofrestr Risgiau

### 4.2.2 Perchnogion Camau Lliniaru

Yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhoi camau lliniaru ar waith
- Adrodd ar statws camau lliniaru i berchenog y risg
- Rheoli'r camau'n rhagweithiol ac adrodd ar unrhyw newid yn yr amserlen neu'r gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer cam

### 4.2.3 Cydlynnydd Risgiau Swyddogaethol

Gall Rheolwr y Prosiect hefyd bennu cydlynnydd swyddogaethol i gymryd rhan mewn gweithgareddau rheoli risg. Mewn achosion o'r fath, mae'r cydlynnydd swyddogaethol yn cyflawni'r tasgau a'r cyfrifoldebau ar gyfer maes swyddogaethol penodol.

## 5 Adolygu Dogfennau

Dylai'r ddogfen hon, ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig, gael eu hadolygu unwaith bob tair blynedd o leiaf, pan fydd deddfwriaethau'n newid ac yn rheolaidd yn ystod y prosiect, er enghraift os bydd newid sylweddol, a hynny i gynnal ei heffeithiolrwydd.

## Item 2.5

Andrew Slade  
Cyfarwyddwr Cyffredinol  
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol  
Llywodraeth Cymru

29 Hydref 2019

### **Cynllun tocynnau bws rhatach i bobl ifanc Llywodraeth Cymru – FyNgherdyn Teithio**

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Hydref 2019, a oedd yn egluro nifer o faterion o ran amcangyfrif o ddata siwrneiau ar gyfer 2018 – 19.

Fodd bynnag, wedi'i ddarllen ar y cyd â thystiolaeth flaenorol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'r ymateb yn awgrymu bod nifer y bobl ifanc 19–21 mlwydd oed sy'n dal pasiau wedi lleihau yn hytrach na chynyddu rhwng mis Mai a mis Awst 2019, gyda dim ond 551 o basiau gweithredol mewn cylchrediad ar gyfer y garfan o 19 i 21 mlwydd oed ar ddechrau mis Awst o'i gymharu â'r ffigur o 834 a nodwyd yn flaenorol ar gyfer canol mis Mai.

Ni ddarperir esboniad am y gwahaniaeth hwn yn eich llythyr, ond mae'r ffigurau'n codi cwestiynau parhaus ynghylch effeithiolrwydd ymdrechion marchnata, a dyheadau, Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun. Nodwn, fodd bynnag, y bu rhywfaint o dwf pellach yn nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n dal pasiau.

Roedd y Pwyllgor yn parhau i bryderu am y cynnydd a wneir o ran cynyddu nifer y bobl ifanc 19 – 21 oed sy'n manteisio ar y cerdyn, a hoffai gael eglurhad pellach ar y ffigurau, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am ddull Llywodraethau Cymru o farchnata'r cynllun.



Rwy'n copio'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau fel y gellir ystyried y materion hyn ochr yn ochr â chyllidebu ar gyfer y cynllun, fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor hwnnw ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC**  
**Cadeirydd**



James Price  
Prif Swyddog Gweithredol  
Trafnidiaeth Cymru

31 Hydref 2019

Annwyl James,

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau'r meini prawf a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ynghylch y golygiadau a wneir gan Trafnidiaeth Cymru wrth gyhoeddi dogfennau.

Yn amlwg, mae angen golygu rhywfaint o wybodaeth am resymau cyfrinachedd masnachol. Fodd bynnag, mae'r sail resymegol ar gyfer penderfyniadau eraill a wneir ynghylch golygiadau yn llai eglur. Er enghraifft, yng nghofnodion cyfarfod bwrdd Trafnidiaeth Cymru ym mis Gorffennaf, mae'r wybodaeth am Bersonau â Symudedd Cyfyngedig ac adnewyddu'r fflyd wedi'i golygu.

A allech esbonio'r sail resymegol a ddefnyddir gennych i olygu gwybodaeth pan fyddwch yn cyhoeddi dogfennau? Er mwyn ein helpu i ddeall, byddwn yn ddiolchgar pe gallich hefyd egluro sut y mae'r sail resymegol hon yn berthnasol i bob golygiad unigol yn y cofnodion a gyhoeddwyd gan Fwrdd Trafnidiaeth Cymru ym mis Gorffennaf 2019, oherwydd, yn y ddogfen hon, roeddwn yn synnu gweld bod bron yr holl adran ar Bersonau â Symudedd Cyfyngedig a statws adnewyddu'r fflyd wedi'i golygu.

Mae gwefan Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cynnwys nifer o ddogfennau sy'n ymwneud â rheoli gwasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys rhai golygiadau nad oes sail resymegol glir iddynt. Er enghraifft, synnaid gweld yn nogfen dylunio cysyniad Cledrau Craidd y Cymoedd, sy'n rhan o'r gwahoddiad i gyflwyno tendrau terfynol, fod nifer o adrannau wedi'u golygu y maent yn ymddangos eu bod yn gysylltiedig ag amseriad y gwaith o uwchraddio Cledrau Craidd y Cymoedd e.e. atodiadau E ac F.



Byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio'r sail resymegol dros bob golygiad a wnaed i wahoddiad masnachfaint y rheilffyrdd i gyflwyno tendrau terfynol, a hefyd y cytundeb grant ei hun.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



Russell George AC

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau



# Eitem 3

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon



# Ymateb i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Ddatgarboneiddio Trafnidiaeth

Awst 2019

## Ynglŷn â Chludiant Cymunedol

Cyflwynir yr ymateb hwn gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA), elusen sy'n weithredol ar draws y DU ac yn gweithio gyda miloedd o elusennau a grwpiau cymunedol eraill ledled y DU sydd oll yn darparu ac yn cefnogi gwasanaethau trafnidiaeth lleol sy'n cyflawni pwrpas cymdeithasol ac yn rhoi budd cymunedol.

Mae tua 30 y cant o 1,300 o aelodau CTA yn elusennau y mae darparu cludiant cymunedol yn brif waith iddynt a dyma'r label y maent yn dueddol o'i ddefnyddio i ddisgrifio eu gwaith. Mae'r math hwn o gludiant cymunedol yn helpu gydag ansawdd, fforddiadwyedd a hygyrchedd opsiynau trafnidiaeth i bobl na allant yrru ac sydd heb fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae hefyd yn cydnabod mai'r ffordd orau o ddiwallu rhai anghenion yw trwy fod cymunedau yn gwneud pethau drostynt eu hunain.

Golyga hyn ddarparu atebion hyblyg a hygyrch dan arweiniad y gymuned er mwyn ymateb i anghenion trafnidiaeth lleol sydd heb eu diwallu, ac yn aml dyma'r unig ffordd o deithio i lawer o bobl sydd wedi'u hynysu ac sy'n agored i niwed.

Darperir gwasanaethau cludiant gymunedol yn bennaf naill ai trwy drwydded adran 19 sy'n cynnig cludiant o ddrws i ddrws yn bennaf ar gyfer pobl sydd â phroblemau symudedd, neu drwy wasanaethau adran 22 sydd wedi'u hamserlennu. Mae trwyddedau adran 22 yn galluogi

cyrff dielw i redeg gwasanaethau bysiau lleol er budd y gymuned. Yn aml, byddant yn defnyddio bysiau mini yn hytrach na bysiau mwy, sy'n golygu y gallant gynnal llwybrau lle nad yw'r gwasanaeth yn rhedeg yn aml a lle mae niferoedd y teithwyr yn fach, megis y rhai sy'n gwasanaethu pentrefi gwledig, mewn ffordd gost-effeithiol.

Mae cyfranogiad gan niferoedd uchel o wirfoddolwyr, y gallu i gael cyllid o gronfeydd elusennol, cerbydau hygrych a model busnes dielw i gyd yn golygu bod cludiant cymunedol yn aml yn ffordd fwy dibynadwy a gwydn o ddiwallu ystod fwy eang o anghenion trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer ein dinasyddion mwyaf ynysig a bregus.

Mae'r 70 y cant arall o aelodau CTA yn elusennau, grwpiau cymunedol a chyrff dielw eraill sy'n defnyddio'r un gyfundrefn drwyddedau i gynnal cludiant i gefnogi eu prif weithgareddau elusennol, megis grwpiau ieuengtiaid neu ganghennau RVS.

## Cyflwyniad

Mae dyfodol gyda thrafnidiaeth lanach, mwy effeithlon a mwy cynaliadwy yn ddelfryd ar gyfer gweithredwyr cludiant cymunedol. Mae ein haelodau'n gofalu am lawer o bobl fwyaf bregus ein cymunedau, ac maen nhw'n ymwybodol iawn o'r problemau iechyd a symudedd a ddaw yn sgil llygredd aer. Mae ein sector yn gobeithio bod yn bartner cadarnhaol a rhagweithiol yn y broses o ddatgarboneiddio trafnidiaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

